Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Penyrheol
# Ffordd Frampton
# Penyrheol
# Gorseinon
# Abertawe
# SA4 4LY

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Penyrheol mewn lleoliad lled wledig ym Mhenyrheol, ger Gorseinon, a thua saith milltir i'r gogledd orllewin o Abertawe. Adeiladwyd yr ysgol ym 1992. Mae ganddi ddyluniad cynllun lled agored a thir a chaeau chwarae eang.

Mae 235 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng tair ac 11 oed, yn cynnwys 27 o ddisgyblion yn y feithrinfa ran-amser. Mae 10 dosbarth. Mae saith ohonynt yn ddosbarthiadau un oedran, a thri dosbarth yng nghyfnod allweddol 2 yn ddosbarthiadau oedran cymysg.

Mae gan ryw 24% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sydd uwchlaw'r cyfartaledd o gymharu â'r awdurdod lleol a Chymru. Mae tua 3% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg yn rhugl gartref.

Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 32% o'i disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, yn cynnwys chwe disgybl sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae wyth o blant sy'n cael gofal yn yr ysgol.

Y tro diwethaf y cafodd yr ysgol ei harolygu oedd yn Ionawr 2006.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Penyrheol yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,144 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Abertawe yw £11,089 a'r isafswm yw £2,560. Mae Ysgol Gynradd Penyrheol yn safle 46 o'r 86 o ysgolion cynradd yn Abertawe o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol;
- bod perfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gyson dda mewn Saesneg a mathemateg;
- bod medrau disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn datblygu'n dda;
- bod disgyblion yn frwdfrydig iawn ynglŷn â dysgu ac yn cymryd rhan yn dda iawn mewn gwersi;
- bod ansawdd yr addysgu a'r asesu'n gyson dda ar draws yr ysgol;
- bod athrawon yn defnyddio data ar berfformiad disgyblion yn dda iawn i fonitro eu cynnydd a chefnogi eu datblygiad;
- bod y cwricwlwm yn ddiddorol ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn dda iawn; a
- bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth o ansawdd uchel ac yn gwneud cynnydd da.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod y pennaeth, yr uwch dîm arweinyddiaeth a'r corff llywodraethol yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda iawn ac maent yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth;
- bod gan bob un o'r staff ddisgwyliadau uchel o'i gilydd ac yn gweithio'n dda fel tîm;
- bod staff yn fodlon derbyn syniadau a dulliau newydd er lles y disgyblion;
- bod hanes da o gyflawni gwelliannau mewn addysgu a dysgu;
- bod staff yn ymgymryd â'r prosesau sy'n cefnogi hunanarfarnu yn gydwybodol iawn ar lefel dosbarth, pwnc a sector; a
- bod prosesau hunanarfarnu yn nodi blaenoriaethau perthnasol ar gyfer gwella y mae staff yn eu deall yn dda.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

A1 wella cyfran y disgyblion sy'n cyflawni uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig yng nghyfnodau allweddol 1 a 2;

A2 gwella cyfraddau presenoldeb cyffredinol yn yr ysgol;

A3 dirprwyo mwy o dasgau rheoli i'r uwch dîm arweinyddiaeth; a

A4 gwneud yr adroddiad hunanarfarnu yn fwy o ddogfen weithio sy'n bodloni anghenion pob un o'r rhanddeiliaid.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau llafar disgyblion yn dda ar draws yr ysgol. Maent yn cyfleu eu syniadau a'u hymatebion yn rhwydd mewn parau, grwpiau a gwaith dosbarth cyfan. Maent yn adrodd am ddigwyddiadau'r gorffennol yn dda a gallant gyfleu dadleuon clir i gefnogi eu safbwyntiau, er enghraifft am ailgylchu, diogelu'r amgylchedd a ffyrdd iach o fyw. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gyfforddus iawn yn adrodd yn ôl wrth y dosbarth am eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar ei gilydd, ond mae rhai ohonynt mor awyddus i gyfrannu at drafodaethau fel nad ydynt yn gwrando'n dda ar yr hyn sydd gan ddisgyblion eraill i'w ddweud.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau darllen. Wrth iddynt symud trwy'r Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn caffael dealltwriaeth dda o seiniau llythrennau ac maent yn datblygu strategaethau priodol ar gyfer mynd i'r afael â geiriau newydd ac anghyfarwydd. Mae disgyblion ym mhob dosbarth yn dangos diddordeb brwd mewn darllen ac adrodd storïau. Mae llawer ohonynt yn troi at lyfrau yn naturiol er mwynhad a gwybodaeth. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf o ddarllenwyr ymdrin â thestunau eithaf cymhleth yn hyderus. Gall llawer ohonynt nodi nodweddion gwahanol genres a gallant werthfawrogi sut a pham mae awduron yn defnyddio iaith i greu effaith, i argyhoeddi darllenydd mewn hysbyseb, er enghraifft.

Mae medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu'n eithaf da ar y cyfan. Gall mwyafrif o ddisgyblion hŷn yn y Cyfnod Sylfaen ysgrifennu'n annibynnol at ystod o ddibenion. Mae disgyblion mwy abl ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn dechrau addasu eu hiaith ysgrifenedig i gynnwys mwy o eiriau diddorol ac ystod ehangach o frawddegau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn ysgrifennu'n dda at lawer o ddibenion gwahanol ac mae'r mwyafrif ohonynt yn gwneud defnydd priodol o ystod addas o farciau atalnodi. Mae ysgrifennu dychmygus disgyblion i ymateb i destunau llenyddol ac i ymateb i adrodd storïau, ymweliadau addysgol ac ymwelwyr yn aml yn dda.

Mae medrau disgyblion wrth ddefnyddio ystod eang o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws yr ysgol yn dda iawn.

Mae gan bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu Cymraeg, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'r iaith yn effeithiol mewn ystod o gyd-destunau y tu allan i strwythur ffurfiol y gwersi Cymraeg. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt wybodaeth dda am eu hanes lleol a diwylliant Cymru.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 wedi bod yn dda o gymharu â'i theulu o ysgolion neu'r ysgolion hynny sydd â chyfran debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Y llynedd, arhosodd perfformiad disgyblion mewn Saesneg yr un fath â'r cyfartaledd, neu'n agos ato, ar gyfer ysgolion tebyg, ond disgynnodd ymhell islaw perfformiad ysgolion tebyg eraill mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Fodd bynnag, mae safonau presennol ym Mlwyddyn 2 yn dangos lefel uwch o gyflawniad ac ar lefel yr un fath â'r cyfartaledd, neu'n agos ato, ar gyfer ysgolion tebyg.

Mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi bod yn gyson dda dros y blynyddoedd diwethaf. Mae wedi golygu bod yr ysgol yn y 50% uchaf o'i theulu o ysgolion ac o gymharu ag ysgolion y mae gan gyfran debyg o'u disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad mewn Saesneg a mathemateg wedi bod yn arbennig o dda.

Mae rhai disgyblion yn cyflawni'n uwch na'r lefelau disgwyliedig yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 bob blwyddyn, ond mae'r gyfran fel arfer yn is nag ydyw mewn ysgolion tebyg. Mae'r gwahaniaethau yng nghyrhaeddiad bechgyn a merched yn dilyn tueddiadau cenedlaethol ar y cyfan. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Mae'r disgyblion hynny y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn caffael medrau Saesneg ar y gyfradd ddisgwyliedig o gymharu â'u mannau cychwyn a'r cynnydd a wneir gan ddisgyblion tebyg yn yr awdurdod lleol.

### Lles: Da

Mae disgyblion yn awyddus ac yn frwdfrydig iawn ynglŷn â'u dysgu. Maent yn ymddwyn yn dda ar draws yr ysgol. Maent yn dychwelyd ar ôl amser chwarae neu amser cinio yn barod i weithio ar unwaith. Gall yr athrawon ymddiried yn y disgyblion i fwrw ymlaen â'u gwaith yn gynhyrchiol tra byddan nhw'n mynd i gynorthwyo grwpiau eraill. Mae'r disgyblion yn uniaethu'n dda iawn â'i gilydd a staff. Maent yn barod i dderbyn cyfrifoldeb ac mae'r disgyblion ar y cyngor ysgol a'r eco bwyllgor yn cyflawni eu rolau'n hyderus ac yn aeddfed.

Mae gan ddisgyblion agweddau da at gadw'n iach ac mae llawer ohonynt yn dewis opsiynau iach amser cinio ac yn y siop fwyd sy'n cael ei rhedeg gan y cyngor ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael gofal da.

Y gyfradd presenoldeb gyffredinol yn yr ysgol yw tua 92%. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae llawer o hyn yn gysylltiedig â phresenoldeb gwael gan grŵp bach iawn o ddisgyblion, ac mae cyfraddau presenoldeb llawer o ddisgyblion yn amrywio o 95% i 100%.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

### Profiadau dysgu: Da

Mae profiadau dysgu'n gynhwysol ac ysgogol. Mae cynlluniau gwersi manwl ym mhob dosbarth yn sicrhau bod gweithgareddau'n cynnig parhad a dilyniant yn nysgu'r disgyblion. Mae cynllunio athrawon yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygiad medrau allweddol disgyblion ar draws ystod o bynciau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau cyfathrebu, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a meddwl yn dda ac yn sicrhau bod disgyblion yn cael ystod amrywiol a dychmygus o brofiadau. Mae'r cwricwlwm yn bodloni anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion ac unigolion, ac yn darparu rhaglenni personol ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol. Mae athrawon yn addasu tasgau'n dda i herio a chefnogi pob disgybl.

Mae darpariaeth dda ar gyfer datblygu defnydd disgyblion o’r Gymraeg mewn gwersi ffurfiol. Rhoddir cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ieithyddol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae’r ysgol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o hanes a diwylliant Cymru yn effeithiol.

Mae’r ffordd y mae athrawon yn creu cyfleoedd helaeth ac ysgogol i ddisgyblion weithredu’n gynaliadwy a datblygu dealltwriaeth o’u rolau a’u cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang yn gryfder penodol yn yr ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu’n gyson dda. Mae gan staff wybodaeth bynciol briodol ac maent yn defnyddio ystod o weithgareddau a dulliau cynhwysol i herio disgyblion yn dda. Mae athrawon a disgyblion yn cydweithio’n dda. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion o ran eu hymddygiad a’u hagweddau. Mae athrawon yn cynllunio gwersi’n dda ac yn defnyddio’r adnoddau sydd ar gael yn effeithiol, yn enwedig technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Maent yn rhannu amcanion dysgu clir gyda disgyblion ar ddechrau gwersi, ac mae ffocws cryf ar sicrhau bod disgyblion yn arfarnu eu dysgu ar y diwedd. Mae athrawon yn ymdrin â staff cymorth yn eu hystafelloedd dosbarth yn effeithiol iawn ac maent yn cyfrannu’n sylweddol at ddysgu’r disgyblion. O bryd i’w gilydd, ceisiodd yr athro wneud gormod o waith neu roedd y wers yn symud yn rhy gyflym i rai disgyblion.

Mae’r marcio ansawdd uchel yn nodwedd gref yn yr ysgol, ac mae athrawon yn rhoi adborth defnyddiol iawn i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith. Mae staff yn cofnodi cynnydd disgyblion yn drylwyr ac yn gyson ar draws yr ysgol. Maent yn ei ddefnyddio’n hynod effeithiol ar lefel dosbarth i nodi cryfderau a gwendidau disgyblion unigol a chynllunio gwersi yn unol â hynny yn y dyfodol.

Mae’r adroddiadau blynyddol i rieni yn llawn gwybodaeth ac maent yn amlinellu targedau clir ynglŷn â’r modd y gall disgyblion wella eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw fformat a chynnwys yr adroddiadau blynyddol ar gyfer disgyblion iau yn gwbl briodol ar gyfer yr ystod oedran.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar, ysgogol a diogel ar gyfer disgyblion. Mae ymwelwyr yn dod i’r ysgol yn rheolaidd ac yn addysgu disgyblion sut i fod yn ddiogel y tu mewn i’r ysgol a’r tu allan. Caiff disgyblion eu haddysgu’n dda am eu hawliau a’u cyfrifoldebau, ac mae athrawon yn pwysleisio goddefgarwch at safbwyntiau a diwylliannau pobl eraill yn rheolaidd. Mae darpariaeth dda ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol disgyblion, ond ni roddir digon o bwyslais ar fyfyrio ysbrydol yn ystod gwasanaethau bob amser.

Mae gweithgareddau corfforol ysgogol a ffocysedig da amser egwyl ac amser cinio, yn cynnwys mynd ar feiciau a sgwteri yn drefnus mewn mannau dynodedig, yn helpu i gadw disgyblion yn iach a heini. Caiff disgyblion hyfforddiant i weithredu fel dyfarnwyr gemau, ac mae disgyblion eraill yn parchu eu hawdurdod yn dda. Mae darpariaeth clwb brecwast, siop fwyd iach a bwydlen amser cinio gytbwys i gyd yn hyrwyddo bwyta’n iach yn effeithiol.

Rhoddir cymorth da, wedi'i dargedu'n dda, i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn eu dosbarthiadau, yn aml gan gynorthwywyr addysgu effeithiol, ac maent hefyd yn cael cymorth dyddiol wedi'i amserlennu'n dda gan y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol yn nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gyflym ac yn effeithiol. Caiff disgyblion a rhieni eu cynnwys i raddau helaeth wrth osod ac adolygu'r targedau mewn cynlluniau addysg unigol ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a gofalgar iawn sy'n adlewyrchu nod yr ysgol, sef 'Rhoi plant yn gyntaf'. Mae staff yn trin pob disgybl yn gyfartal ac yn deg. Mae disgyblion yn myfyrio'n aeddfed ar faterion moesegol a chymdeithasol trwy wneud defnydd effeithiol o chwarae rôl, 'amser cylch' a sesiynau sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â materion athronyddol. Mae athrawon yn herio stereoteipiau yn agweddau disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r holl le sydd ar gael yn effeithiol. Mae ystafelloedd dosbarth yn atyniadol a'r mannau mewnol a rennir yn hwyliog ac yn cael eu cynnal yn dda. Dethlir gwaith disgyblion yn dda iawn trwy arddangosiadau ar y waliau. Mae ystod dda o adnoddau o ansawdd uchel yn yr ysgol. Mae'r ystod o dechnoleg symudol sydd ar gael i ddysgwyr yn gryfder arbennig.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae staff a llywodraethwyr yn rhannu gweledigaeth bwrpasol ar gyfer yr ysgol, sy'n canolbwyntio'n glir ar ddisgwyliadau uchel ar gyfer lles a chyflawniad disgyblion.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol wedi gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol. Mae'r pennaeth yn arwain yn dda iawn yn ôl esiampl ac fe'i gwelir yn aml o gwmpas yr ysgol. Mae ganddi berthynas dda gyda disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni. Mae'r aelodau eraill o'r uwch dîm rheoli yn cefnogi'r pennaeth yn dda iawn ac maent yn ymgymryd ag ystod o gyfrifoldebau'r cwricwlwm ac yn arwain mentrau cwricwlaidd ac asesu amrywiol yn effeithiol. Fodd bynnag, nifer gymharol fach o gyfleoedd a gânt i ymgymryd â mwy o rolau rheoli.

Mae gan bob un o'r staff rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir ac maent yn monitro eu meysydd cyfrifoldeb yn drylwyr ac yn gydwybodol. Mae lefel dda o waith tîm ar draws yr ysgol.

Mae aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn ymgymryd â gweithdrefnau rheoli perfformiad yn dda. Caiff staff dargedau priodol sy'n cyd-fynd â'u datblygiad proffesiynol a'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Caiff pob un o'r staff cymorth gyfweliad perfformiad blynyddol hefyd.

Mae'r ysgol yn effro i fentrau addysgol a pholisi yn lleol ac yn genedlaethol ac yn ymateb yn frwdfrydig i gyfleoedd i ddatblygu ei darpariaeth yn unol â hynny, er enghraifft mewn perthynas ag asesu ar gyfer dysgu yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn o'r ysgol, yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol ac yn cael gwybodaeth â manylion priodol am berfformiad yr ysgol gan y pennaeth. Rhoddwyd pwnc dynodedig neu agwedd ddynodedig ar waith yr ysgol i bob llywodraethwr, ac maent yn mynd ar ymweliadau ffocysedig i fonitro ansawdd darpariaeth yr ysgol. Maent yn cyfrannu'n dda at gyfeiriad strategol yr ysgol ac yn datblygu eu rôl fel 'ffrind beirniadol' yn briodol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r prosesau sy'n ymwneud â hunanarfarnu wedi'u hen sefydlu yn yr ysgol. Mae pob un o'r staff yn cyfrannu'n effeithiol at nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, yn ei fformat presennol, nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn hylaw fel dogfen weithio i bob un o'r rhanddeiliaid. Mae cydlynwyr pwnc yn monitro safonau ac ansawdd yn fanwl bob blwyddyn. Mae staff yn cynnal dadansoddiad eang o ystod eang o dystiolaeth a data perfformiad. Mae arolygon a holiaduron ar gyfer disgyblion, rhieni a llywodraethwyr wedi cryfhau'r broses hunanarfarnu ymhellach.

Mae cysylltiadau clir rhwng deilliannau hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Mae'r blaenoriaethau'n canolbwyntio'n dda ar safonau.

Mae staff yn manteisio ar ystod eang o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Mae rhaglen hyfforddi dda ar gyfer staff cymorth, ac mae grwpiau o staff addysgu a staff cymorth yn cydweithio'n dda iawn i rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd am addysgu a dysgu.

Mae'r ysgol yn cymryd rhan yn effeithiol mewn ystod o rwydweithiau proffesiynol gydag ysgolion a phartneriaid eraill. Caiff yr ymglymiad hwn effaith gadarnhaol ar ddysgu'r disgyblion, yn enwedig ym maes anghenion ychwanegol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae rhieni ac aelodau o'r gymuned yn gefnogol iawn i waith yr ysgol. Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon frwdfrydig yn codi cryn dipyn o arian i gefnogi mentrau'r ysgol. Mae cysylltiadau da gyda diwydiant yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o fyd gwaith yn effeithiol, er enghraifft trwy'r prosiect peirianwyr ifanc. Mae'r ysgol wedi creu cysylltiadau effeithiol iawn gyda sefydliadau hyfforddiant cychwynnol i athrawon i gefnogi athrawon dan hyfforddiant. Mae'r ysgol yn ymgysylltu'n bwrpasol iawn â'r awdurdod lleol ac mae staff unigol wedi cyfrannu at ddatblygiadau a mentrau lleol.

Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau pwrpasol i sicrhau cyfnod pontio didrafferth i ddisgyblion o'r Cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 2. Mae system gyfeillion effeithiol yn sicrhau bod disgyblion sy'n dechrau yn yr ysgol yn teimlo'n ddiogel a bod croeso iddynt. Mae cynrychiolwyr Blwyddyn 6 o'r cyngor ysgol yn cyfarfod â chynrychiolwyr o ysgolion cynradd eraill yn yr ardal fel 'cyngor pontio', ac mae'n cydweithio'n rheolaidd ac yn helaeth gyda'r ysgol uwchradd gyfagos i helpu i sicrhau bod disgyblion yn symud yn ddidrafferth i'r cam nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae digon o athrawon cymwys a phrofiadol a staff eraill i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae trefniadau priodol ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon.

Mae'r ysgol yn defnyddio ei hadeiladau a'i hadnoddau'n dda iawn. Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch mewn ffordd hynod drylwyr.

Mae'r pennaeth a phwyllgor cyllid y corff llywodraethol yn monitro cyllideb yr ysgol yn effeithiol. Mae gwariant yn cyd-fynd yn agos â'r blaenoriaethau a nodwyd gan yr ysgol trwy ei phrosesau hunanarfarnu.

Mae'r safonau da a gyflawnir gan ddisgyblion sy'n gysylltiedig â'r cryfderau niferus yn ansawdd y ddarpariaeth yn dangos bod yr ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae asesiadau gwaelodlin o ddisgyblion pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol yn dangos bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn perfformio ar lefel sy'n briodol i'w hoedran neu'n is, ac mae ychydig iawn o ddisgyblion yn perfformio ar lefel ychydig uwchlaw'r cyfartaledd.

Yng nghyfnod allweddol 1, o 2008-2010, mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 2) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg, neu'n uwch. Mae perfformiad yr ysgol wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd hefyd o gymharu â'r grŵp o ysgolion y mae gan gyfrannau tebyg o'u disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, yn 2011, disgynnodd y gyfran a gyflawnodd o leiaf lefel 2 mewn gwyddoniaeth a mathemateg islaw neu ymhell islaw'r meincnodau teuluol a phrydau ysgol am ddim, ond parhaodd perfformiad mewn Saesneg yn dda ar y cyfan.

Yng nghyfnod allweddol 2, o 2008-2010, mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg neu'n uwch ac ar gyfer ysgolion y mae gan gyfrannau tebyg o'u disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae tuedd o welliant sy'n gwella rhywfaint flwyddyn ar ôl blwyddyn hefyd. Yn 2011, roedd perfformiad disgyblion ym mhob agwedd ar Saesneg a mathemateg uwchlaw'r cyfartaledd teuluol. Disgynnodd y deilliannau mewn gwyddoniaeth ychydig y llynedd, ond fe wnaethant aros yn debyg i'r cyfartaledd teuluol.

Mae cyfran y disgyblion yn yr ysgol sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim (24%) yn golygu ei bod ar y ffin rhwng un band o ysgolion ac un arall. Pe bai'r ysgol yn disgyn i'r band nesaf (gyda chyfran uwch o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim), byddai perfformiad presennol yr ysgol yn golygu ei bod yn y 25% uchaf o ysgolion ar gyfer Saesneg, mathemateg a'r dangosydd pwnc craidd.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefelau uwch na'r disgwyl yng nghyfnod allweddol 1 (lefel 3) ac yng nghyfnod allweddol 2 (lefel 5) yn is ar y cyfan na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg a'r rhai y mae cyfrannau tebyg o'u disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim.

Mae profion darllen safonedig yn dangos bod disgyblion yn gwneud cynnydd priodol o ran datblygu eu medrau darllen o'u mannau cychwyn pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol ac o gyfnod allweddol 1 i gyfnod allweddol 2. Dengys data gwerth ychwanegol fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wedi'i seilio ar eu cyflawniad blaenorol, gydag ychydig iawn o ddisgyblion yn gwneud cryn dipyn yn well na'r cynnydd disgwyliedig.

# Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Holiaduron i ddysgwyr**

Llenwyd yr holiadur gan gant pum deg dau o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

Mae pob disgybl, neu bron pob disgybl:

- yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol;
- yn credu bod athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac yn rhoi gwaith cartref defnyddiol iddynt;
- yn gwybod beth i’w wneud ac i bwy i ofyn os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd;
- yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda a bod yr ysgol yn eu helpu i gadw’n iach; ac
- yn credu bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion:

- yn teimlo bod yr ysgol yn delio’n dda ag unrhyw fwlio a’u bod yn gwybod gyda phwy y gallant siarad os ydynt yn poeni neu’n gofidio; ac
- yn credu bod yr ysgol yn rhoi llawer o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae llawer o ddisgyblion:

- yn credu bod plant yn ymddwyn yn dda fel eu bod yn gallu bwrw ymlaen â’u gwaith; ac
- yn teimlo bod bron pob un o’r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Mae safbwyntiau disgyblion yn debyg i safbwyntiau disgyblion mewn ysgolion eraill ledled Cymru, neu ychydig bach yn llai cadarnhaol na nhw ar y cyfan.

**Holiaduron i rieni**

Dychwelwyd yr holiadur gan ddau ddeg pedwar o rieni neu ofalwyr.

Roedd llawer o rieni neu ofalwyr yn teimlo:

- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda;
- eu bod yn fodlon â’r ysgol;
- bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol ac yn hoffi’r ysgol;
- y gwnaeth yr ysgol helpu eu plentyn i ymgynefino’n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda;
- bod staff yn trin pob un o’r plant yn deg ac yn dangos parch atynt;
- bod yr ysgol yn annog eu plentyn i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd;

- eu bod yn gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblemau;
- bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da;
- bod yr addysgu'n dda;
- bod staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed a gwneud ei (g)orau;
- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion penodol;
- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed a chymryd cyfrifoldeb;
- bod ystod dda o weithgareddau, yn cynnwys gwibdeithiau neu ymweliadau;
- bod y gwaith cartref a roddir yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn; a'u bod
- yn deall gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion.

Mae safbwyntiau rhieni a gofalwyr yn fwy cadarnhaol na safbwyntiau rhieni neu ofalwyr eraill ledled Cymru ar y cyfan. Mae cyfran uwch o lawer na'r cyfartaledd o rieni yn fodlon â'r cymorth a gaiff eu plentyn pan fydd yn dechrau'r ysgol, y cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud a'r wybodaeth a gânt am gynnydd eu plentyn.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Barry Norris | Arolygydd Cofnodol |
| Carolyn Thomas | Arolygydd Tîm |
| Julie Price | Arolygydd Lleyg |
| Alexine Bartholemew | Arolygydd Cymheiriaid |
| Alison Williams (Pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.